# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Joio Day Nursery**

**40 St James Crescent**
**Abertawe**
**SA1 6DR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Joio

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfa Joio Day Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 56 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd arolygiad cyntaf y lleoliad. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn rhyngweithio'n hapus â'i gilydd a chyda'r staff ac yn gwybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt. Mae'r plant yn dewis ble yr hoffent chwarae a gallant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau pwrpasol, sy'n eu galluogi i feithrin eu sgiliau annibyniaeth.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'n fedrus i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant. Maent yn defnyddio dulliau arloesol i gefnogi'r plant i setlo'n gyflym ac yn hyrwyddo eu chwilfrydedd wrth iddynt chwarae. Mae'r staff yn arsylwi'n ofalus ac yn cynllunio ar gyfer y camau nesaf i ddiwallu anghenion y plant ac ymateb i'w diddordebau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi mesurau rhagorol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn. Maent yn darparu amrywiaeth eithriadol o adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedran y plant ac eitemau bywyd go iawn er mwyn meithrin eu sgiliau datblygiadol cyffredinol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau i gydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt weledigaeth eithriadol ar gyfer y dyfodol. Mae ganddynt dîm medrus o staff ac maent wedi meithrin partneriaethau cryf iawn â'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn hyderus ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, ar adeg brecwast, mae'r plant yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr hyn yr hoffent ei fwyta drwy helpu eu hunain wrth orsaf frecwast sydd wedi'i gosod fel bwffe. Mae hyn yn eu galluogi i feddwl yn rhydd am eu hoff bethau a'u cas bethau wrth iddynt feithrin eu sgiliau gwneud penderfyniadau. Mae'r plant yn hapus iawn, yn wydn, ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn cael cyfleoedd cyffrous i wneud dewisiadau. Er enghraifft, yn ystod amser chwarae yn yr awyr agored, mae'r plant yn mwynhau'r rhyddid i archwilio'r amgylchedd a gwneud dewisiadau fel symud eitemau o un ardal o'r ardd i un arall.

Mae'r plant yn setlo’n dda yn y lleoliad hwn ac maent yn gyfarwydd â’r trefniadau dyddiol. Maent wedi meithrin cydberthnasau cryf ac agos â'u ffrindiau a'r staff. Caiff teimladau ac anghenion y plant eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n fawr. Mae ganddynt gydberthnasau a chysylltiadau agos ag eraill. Er enghraifft, yn ystod stori yn yr ardd rhwng plentyn ac aelod o'r staff, daeth y plant eraill draw yn gyflym gan bwyso ar ysgwyddau'r aelod o staff i wrando ar y stori.
Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson ysgogol ac mae'r plant yn cydweithredu'n frwdfrydig. Mae'r plant yn ymateb ac yn cyfathrebu gan ddangos gofal a hoffter, ac maent yn gwrando ar eraill gyda diddordeb. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd y bore, daeth y plant at ei gilydd yn frwdfrydig i eistedd â'i gilydd gan sicrhau bod lle i bob un o'u ffrindiau i eistedd, *“You can sit by me.”* Mae'r plant yn ymgysylltu'n llawn ac yn dangos parch tuag at eraill ac at y lleoliad. Er enghraifft, wrth ddysgu sut i weithredu'r ffynnon ddŵr yn yr awyr agored, roedd y plant yn barod i ddal cwpanau ei gilydd wrth iddynt aros i lenwi eu cwpan eu hunain. Mae'r plant yn gyfforddus gydag ymwelwyr ac yn hyderus i'n cynnwys yn eu chwarae. Er enghraifft, yn ystod un gweithgaredd adeiladu yn yr awyr agored, tynnodd un plentyn ein sylw gan alw, *“watch me now.”*

Mae'r plant yn chwarae'n brysur. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig o amser ac yn sgwrsio'n hyderus â'r staff. Mae'r plant yn hapus i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac archwilio eu hamgylchedd. Er enghraifft, roedd un grŵp o blant yn sgrechian yn llawn cyffro wrth iddynt greu cwrs rhwystr gyda stepiau cydbwyso. Buont yn cydweithio ac yn sgwrsio â'i gilydd i greu rhes o stepiau, gan gymryd eu tro i fynd ar hyd y cwrs, a arweiniodd at ymdeimlad gwych o gyflawniad. Mae'r plant yn profi cyfleoedd dysgu arloesol sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol yn llawn. Er enghraifft, wrth baentio â dŵr ar y patio gyda brwshys a photiau iogwrt bach llawn dŵr, cyhoeddodd un plentyn yn llawn cyffro, *“look, I’m making a square!”* Gan ei bod hi'n ddiwrnod braf, roedd un plentyn yn trochi ei ddwylo yn y dŵr ac yn mynd o amgylch y plant a'r staff gan esgus rhoi eli haul arnynt, gyda'r plant a'r staff yn dweud, *“thank you.”*

Mae'r plant yn mwynhau eu hannibyniaeth ac yn dewis ble i chwarae a gyda phwy yn eiddgar. Ar adeg byrbryd, mae'r plant yn mwynhau helpu eu hunain i lenwi eu powlenni

gyda ffrwythau, ac yn ystod amser cinio, mae'r plant yn bwyta'n hyderus heb gymorth. Gallant hefyd helpu eu hunain i ddŵr pan fyddant yn chwarae yn yr awyr agored. Pan awgrymodd aelod o'r staff y dylai sychu trwyn plentyn, ymatebodd yn hyderus drwy gyflawni'r dasg yn annibynnol gan gyhoeddi, "*I did it!*" Maent yn gallu mynd i ardal y toiledau i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol a golchi eu dwylo'n hyderus.

| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r staff yn deall y polisïau yn llawn ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch personol y plant ac yn sicrhau eu llesiant. Maent yn gallu esbonio polisi diogelu'r lleoliad yn hyderus ac yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn ymateb yn hyderus i senarios diogelu. Mae'r staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd ac yn sicrhau y caiff pob damwain, digwyddiad, a chofnodion meddyginiaeth eu nodi, eu llofnodi, a'u rhannu â'r rhieni. Mae'r staff yn gwybod am alergeddau'r plant ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau'n gadarn. Mae'r staff yn sicrhau y caiff y broses newid cewynnau ei dilyn yn llawn, lle caiff preifatrwydd ac urddas y plant eu parchu'n llawn. Mae'r staff yn rhoi arferion glanhau llym ac arferion hylendid rhagorol ar waith yn gyson. Ar adegau bwyd, byddant yn eistedd wrth y byrddau ac yn bwyta gyda'r plant, sy'n ymateb yn llawn cyffro gyda *"you got same"* a bydd y staff yn ymateb drwy ddweud, *"Yes, I have the same as you."*

Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol iawn, ac mae'r staff yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn eithriadol o sensitif tuag at anghenion y plant ac yn manteisio ar bob cyfle i wella'r rhyngweithio drwy ymatebion gofalus ac iaith lafar gywir. Mae'r staff yn gwrando'n astud arnynt, gan barchu safbwyntiau'r plant. Maent yn enwi pob un o'r plant wrth gyfathrebu â nhw ac yn adnabod y plant yn eithriadol o dda. Maent yn canmol y plant ac yn eu llongyfarch pan fyddant yn llwyddo drwy ddweud, *"Waw, I love it." "That's a good job!" a "Diolch yn fawr, that's amazing."* Mae'r staff yn siaradwyr dwyieithog hyderus, ac yn atgyfnerthu'r iaith Gymraeg yn gyson. Maent yn siarad yn barchus â'r plant, gan ddangos diddordeb, pleser a gofal ym mhopeth a wnânt. Mae'r staff hefyd yn cynnig gofal eithriadol mewn perthynas â'u trefniadau cysgu ar gyfer y plant, gyda phob plentyn yn cael ei sach gysgu ei hun gan sicrhau arferion hylendid cadarn. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn ofalus ac yn sensitif, gan ymgorffori dealltwriaeth y plant o rannu ac ati mewn modd cadarnhaol.

Mae'r staff yn cefnogi'r plant i ehangu ar eu chwilfrydedd a'u sgiliau datrys problemau. Er enghraifft, pan fydd y plant yn llenwi ac yn gwagio cynwysyddion yn y twba dŵr, caiff y staff eu clywed yn ehangu ar ddealltwriaeth y plant. Er enghraifft, drwy ddefnyddio iaith fel, *"what do you think will happen?" "Mae'n ysgafn nawr," "shall we get more water?" "Ydy hi'n drwm?"* Mae'r staff yn gwella profiadau chwarae, iaith, a sgiliau unigol y plant yn gyson

drwy gydnabod pan fydd angen sicrwydd a chymorth ar y plant. Er enghraifft, pan fydd y plant yn archwilio mainc gwaith yn yr awyr agored yn hyderus, gan lenwi cynwysyddion â thoes, trefnu offer a phentyrru potiau trwm, bydd y staff yn defnyddio deialog raenus fel "*stirring a mixture, balancing, bron yn llawn, ydyn nhw'r un maint?*" Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau'r plant yn llawn. Maent yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth ardderchog o gyfleoedd chwarae a dysgu wrth iddynt ddilyn diddordebau'r plant er mwyn cynllunio ar gyfer camau nesaf eu datblygiad.

| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| --- | --- |

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau cynhwysfawr ac effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da o dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r holl ofynion adeiladu a diogelwch yn gyflawn ac yn gyfredol. Caiff profion o'r cyfarpar tân, asesiadau ac ymarferion tân eu cwblhau'n rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw ffeil helaeth o asesiadau risg cynhwysfawr sy'n bwrpasol ac yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Maent yn sicrhau bod y staff yn arsylwi ar y plant yn rheolaidd ac yn cydweithio'n gyson i sicrhau bod y cymarebau bob amser yn cael eu bodloni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr holl staff yn gweithredu mewn ffordd ragweithiol ac yn nodi a rheoli risgiau'n effeithiol wrth iddynt godi. Maent yn sicrhau bod pob ymwelydd yn llofnodi wrth gyrraedd yr adeilad. Maent yn cadw cofrestrau ar gyfer y plant a'r staff ac yn sicrhau bod yr holl amseroedd cyrraedd a gadael yn cael eu cofnodi'n gywir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar i'r plant dros ddau lawr. Mae pob ardal wedi cael ei hystyried yn ofalus er mwyn cynnig cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddysgu. Maent yn sicrhau bod dodrefn ac adnoddau o ansawdd rhagorol ar gael yn hawdd i'r plant dan do ac yn yr awyr agored, sy'n datblygu eu diddordebau, eu chwilfrydedd a'u dychymyg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu heulfan agored lle caiff prydau bwyd eu gweini o'r gegin gyfagos, ac mae'r ystafelloedd eraill yn oerach gan gynnig llawer o wahanol ardaloedd gwahanol i'r plant chwarae ynddynt. Er enghraifft, mae'r ystafelloedd jyngl a gofod yn cymell y plant ac wedi cael eu hadnabod fel amgylcheddau sy'n galluogi. Mae'r ardaloedd toiledau yn hygyrch ac mae'r ardaloedd newid a chysgu dynodedig yn galluogi'r plant i gael eu newid ac i ymlacio mewn ardaloedd sy'n addas ar gyfer eu hoedran. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o fyrddau arddangos sy'n cynnwys gwybodaeth reoliadol, partneriaethau cymunedol a dulliau gweithredu arloesol fel dysgu yng nghanol natur. Maent yn darparu ardal awyr agored sy'n ddiogel ac yn amgaeedig, gan ddarparu amrywiaeth o ardaloedd dysgu cyffrous ac apelgar fel cornel blannu. Mae ganddynt hefyd ardal ddynodedig ar gyfer plant o oedran ysgol, wedi'i lleoli mewn rhandy ar wahân y gellir ond mynd ato drwy'r ardd. Mae

hyn yn cynnig ardal ardderchog i'r plant ymlacio, chwarae gemau, coginio, a chymdeithasu ynddi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dewis adnoddau yn ofalus i ategu'r themâu sy'n rhan o'r broses gynllunio. Yn ogystal ag adnoddau blynyddoedd cynnar ac adnoddau sy'n briodol o ran oedran, maent yn defnyddio arteffactau ac eitemau mewn ffordd arloesol. Er enghraifft, mae'r ystafell ddysgu yn cynnig cyfleoedd ar gyfer profiadau synhwyraidd cyfoethog wrth archwilio darnau rhydd ac adnoddau naturiol fel cloriannau cydbwyso a jariau o godlysiau. I'r gwrthwyneb, mae'r ystafell ddychymyg wedi ei chyflwyno'n bwrpasol, gan wahodd y plant i brofi gwrthrychau ac arteffactau bywyd go iawn i hyrwyddo profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, cês dillad mawr wedi'i lenwi ag adnoddau cerddorol a recordiau, a chornel gartref yn cynnig setiau te go iawn, esgidiau, a gemwaith ar gyfer gwisgo i fyny. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol eu hyrwyddo ym mhob rhan o'r practis gydag amrywiaeth o adnoddau ar gael i alluogi'r plant i ddysgu am y byd y maent yn byw ynddo, fel offerynnau, offer, llyfrau, a dillad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth eithriadol a gaiff rhannu â'r tîm cyfan, gan greu ethos cadarnhaol iawn. Maent yn sicrhau bod y lleoliad yn cyrraedd safonau eithriadol o uchel, gan ddarparu gofal o ansawdd a chyfleoedd rhagorol i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff polisïau, gweithdrefnau a dogfennaeth berthnasol eu hadolygu bob blwyddyn. Caiff y rhain eu storio'n gyfrinachol mewn swyddfa ac ardal staff ar lawr uchaf y lleoliad. Maent yn sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu'r lleoliad yn llawn ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod dogfennaeth fel ffeiliau'r plant yn cydymffurfio'n llawn. Caiff yr holl wybodaeth berthnasol i'r staff ei rhannu'n effeithiol ar hysbysfwrdd yn yr ardal staff, fel gwiriadau dyddiol, rotas, alergeddau, cofnodion cynllunio a chyfleoedd hyfforddi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn myfyrio'n gyson ar y gwasanaeth a ddarperir ac yn ei werthuso'n gyson. Maent yn adolygu ansawdd eu gofal ac yn ystyried barn y plant, y rhieni, y staff a gweithwyr proffesiynol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn croesawu adborth fel y gallant gyflwyno syniadau newydd a pharhau i wneud gwelliannau i'r lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cefnogi'r staff yn arbennig o dda. Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gan eu bod wedi sefydlu tîm hapus ac ymroddedig sy'n ymfalchïo yn y gofal o ansawdd uchel a ddarperir ganddynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ffeiliau'r staff yn cydymffurfio'n llawn ac yn cynnwys tystiolaeth o brosesau sefydlu effeithiol, sesiynau goruchwylio pwrpasol, a phrosesau arfarnu. Maent yn buddsoddi amser mewn rhaglenni hyfforddi er mwyn sicrhau bod y staff yn brofiadol ac yn wybodus. Darperir cyfleoedd i'r staff fod yn achrededig mewn meysydd penodol o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, maent yn rhoi proses effeithlon ar waith ar

gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol drwy ddefnyddio proses fatrics. Mae hyn yn tynnu sylw at ddyddiadau adnewyddu hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd ar gyfer cyrsiau newydd ac arloesol fel cynllunio a natur. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hyrwyddo ethos tîm cydweithredol sy'n arwain at staff sy'n ymrwymedig, yn egnïol, ac yn frwdfrydig yn eu rolau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus iawn ac yn mwynhau cyfleoedd cyffrous i feithrin a dysgu sgiliau newydd.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau rhagorol â'r rhieni, y gweithwyr proffesiynol, ysgolion cyfagos a'r awdurdod lleol. Maent yn cymryd balchder yn eu hymrwymiad i weithio yn eu cymuned. Er enghraifft, ar gyfer eu diwrnod caredigrwydd, bu'r plant yn paratoi tuswon o flodau ac yn eu gadael ar garreg drws pobl. Gwnaethant ddweud wrthym am ddigwyddiadau codi arian ar y cyd â rhieni fel teithiau cerdded noddedig, a diwrnod 'bip, bip' ar gyfer diogelwch ar y ffordd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau rhagorol sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn hyrwyddo diwylliant ac amrywiaeth, fel Diwali, Dydd Miwsig Cymru a Diwrnod y Llyfr. Dywedodd pob un o'r rhieni y gwnaethom siarad â nhw fod eu plant yn eithriadol o hapus ac wedi setlo'n dda, gan ganmol aelodau'r tîm am eu prosesau cyfathrebu drwy ap, ac am eu proffesiynoldeb. Dywedodd y rhieni fod eu plant yn ddiogel, a gwnaethant ddisgrifio'r lleoliad fel *“amazing”* a'u bod yn falch wrth *“to enter the setting and see our child at play.”* Dywedodd un rhiant, *“this is really the best place, they listen and understand my child’s needs,”* a dywedodd un arall, *“we came to an open day and didn’t look back”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/08/2024